Office for Nuclear Regulation (ONR)
Site Report for
Trawsfynydd

Report for period 1st November 2018 - 31st March 2019

Foreword

This report is issued as part of ONR's commitment to make information about inspection and regulatory activities relating to the above site available to the public. Reports are distributed to members for the Trawsfynydd Site Stakeholder Group (SSG) and are also available on the ONR website (http://www.onr.org.uk/llc/).

Site inspectors from ONR usually attend the Trawsfynydd SSG meetings where these reports are presented and will respond to any questions raised there. Any person wishing to inquire about matters covered by this report should contact ONR.

TABLE OF CONTENTS

1 INSPECTIONS 3
2 ROUTINE MATTERS 3
3 NON-ROUTINE MATTERS 4
4 REGULATORY ACTIVITY 4
5 NEWS FROM ONR 4
6 CONTACTS 6

1 INSPECTIONS

1.1 Dates of inspection

ONR inspectors made inspections on the following dates during the reporting period:

- 19th – 20th November 2018
- 15th - 16th January 2019
- 12th February 2019
- 25th March 2019

2 ROUTINE MATTERS

2.1 Inspections

Inspections are undertaken as part of the process for monitoring compliance with:

- the conditions attached by ONR to the nuclear site licence granted under the Nuclear Installations Act 1965 (NIA65) (as amended);
- the Energy Act 2013
- the Health and Safety at Work Act 1974 (HSWA74); and
- regulations made under HSWA74, for example the Ionising Radiations Regulations 2017 (IRR17) and the Management of Health and Safety at Work Regulations 1999 (MHSWR99).

The inspections entail monitoring licensee's actions on the site in relation to incidents, operations, maintenance, projects, modifications, safety case changes and any other matters that may affect safety. The licensee is required to make and implement adequate arrangements under the conditions attached to the licence in order to ensure legal compliance. Inspections seek to judge both the adequacy of these arrangements and their implementation.

In this period, ONR carried out the following inspections at Trawsfynydd:

- LC 9 Instructions to persons on the site
- LC 14 Safety documentation
- LC 15 Periodic review
- LC 17 Management systems
- LC 25 Operational records
- LC 32 Accumulation of radioactive waste

In general, ONR judged the arrangements made and implemented by the site in response to safety requirements to be adequate in the areas inspected. However, where improvements were considered necessary, the licensee made satisfactory commitments to address the issues, and the site inspector will monitor progress during future visits. Where necessary, ONR will take formal regulatory enforcement action to ensure that appropriate remedial measures are implemented in reasonably practicable timescales.

2.2 Other work

As part of the January visit the Site inspector undertook a readiness inspection to inform the release of a regulatory hold point associated with commencement of active commissioning of the south fuel element debris retrievals operations.

The Site inspector held a planned meeting with safety representatives, to support their function of representing employees and receiving information on matters affecting their health, safety and welfare at work.

3 NON-ROUTINE MATTERS

Licensees are required to have arrangements to respond to non-routine matters and events. ONR inspectors judge the adequacy of the licensee's response, including actions taken to implement any necessary improvements.

There were no such matters or events of significance to report during the period.

4 REGULATORY ACTIVITY

ONR may issue formal documents to ensure compliance with regulatory requirements. Under nuclear site Licence Conditions (LC - http://www.onr.org.uk/documents/licence-condition-handbook.pdf) ONR issues regulatory documents which either permit an activity or require some form of action to be taken. These are collectively termed 'Licence Instruments' (LIs). In addition, inspectors may issue Enforcement Notices to secure improvements to safety.

There were no LIs, or Enforcement Notices issued during the period:

Table 1
Licence Instruments and Enforcement Notices Issued by ONR during this period

Date	Type	Ref No	Description
N/A	None		

Reports detailing the above regulatory decisions can be found on the ONR website at http://www.onr.org.uk/pars/.

5 NEWS FROM ONR

Enforcement Action

A summary of enforcement action is provided below. Further detail is available on our website.

- Improvement notice issued to Sellafield Ltd on 4 January 2019 – requires improvements to be made in its principal contractor arrangements for construction, design and management.
- On 1 February, following ONR's prosecution, EDF Energy Nuclear Generation Ltd and Doosan Babcock Ltd were fined £200,000 and £150,000 respectively following an incident where a worker fell from height at Hinkley Point B power station in 2017.
- Two improvement notices issued to two transport logistics companies on 4 February following breaches in regulations for the safe transport of radioactive materials.
- Two improvement notices issued to EDF Energy on 20 February following an incident on 19 November 2018 at Heysham 1, which resulted in injury to three EDF Employees.

**Although outside the current reporting period, we can confirm that on 2 April 2019, Sellafield Ltd were fined £380,000 following ONR's prosecution for safety breaches relating to equipment used for the processing of plutonium.*

Regulatory updates

Following the introduction of new integrated Environmental Authorisations Regulations in Scotland, the MOU between ONR and the Scottish Environmental Protection Agency has been updated. The MOU ensures effective cooperation and collaboration in the regulation of nuclear safety, security, radioactive materials transport, nuclear safeguards and environmental protection on nuclear licensed sites and at other sites where both ONR and SEPA have regulatory functions.

In February, a new nuclear site licence was granted to Tradebe Inutec for their Winfrith site in Dorset. A new site licence was required following Tradebe Inutec's acquisition of buildings and land at the Winfrith site from the Nuclear Decommissioning Authority (NDA).

In March we published a report detailing safety "events" that took place in the UK between 2015-2017. The report details the 56 safety significant events that took place between April 2015 and December 2017 – describing each event, the duty-holder's response, and the actions taken by the ONR. The full report is available on our website.

Stakeholder Engagement

In February, our Chief Nuclear Inspector, Mark Foy and Technical Director, Anthony Hart hosted a webinar which focused on the first Topical Peer Review of 'Ageing management of nuclear power plants and research reactors.' Further details about the webinar are available on our website.

We published our 2018 Stakeholder Survey report, in February following the survey in October/November last year. Stakeholders from across the sector were invited to take part in the survey with 329 responses received, providing valuable insight into how we are viewed by our stakeholders. The full report is available on our website.

On 28 March, we held our NGO Forum in Manchester and were delighted to welcome 15 NGO representatives from 12 organisations. We'll be making the minutes, agenda, presentations and pre-event briefing papers available on our website over the coming weeks.

Corporate news

In February we announced the appointment of Mark McAllister as the new Chair of ONR. Mark will join ONR from 1 April, succeeding Nick Baldwin CBE.

We were delighted that our Chief Executive was recognised as Transformational Leader at the Northern Power Women Awards 2019, an event that celebrates the women and men working towards accelerating gender diversity across the Northern Powerhouse. Adrienne won the award in recognition of her work in leading ONR through significant change while, in parallel, driving gender balance.

ONR has been recognised for its commitment to equality, diversity and inclusion by gaining accreditation to the National Equality Standards (NES).

We are embarking on the final year of our ONR Strategic Plan 2016-2020. So we are now starting to look ahead to what the next five years will bring and beginning to develop our new strategy for 2020-25. We're not doing this alone; we've already started talking to our staff and we are asking our stakeholders for their views to shape our plans. We are really keen to hear from SSG and LLC members and attendees to help us develop our strategic aims and objectives. We'd like to know:

- What is working well that we should keep doing and/or do more of?
- What do you think our top regulatory priorities should be in the 2020s?
- What do you think is missing from our current Strategic Plan that needs to feature in the next one?

We intend to consult on our draft strategy in the autumn, but in the meantime, if you'd like to share your comments and suggestions please email us at: contact@onr.gov.uk. We look forward to hearing from you.

6 CONTACTS

Office for Nuclear Regulation
Redgrave Court
Merton Road
Bootle
Merseyside
L20 7HS
website: www.onr.org.uk
email: ONREnquiries@onr.gsi.gov.uk

This document is issued by the Office for Nuclear Regulation (ONR). For further information about ONR, or to report inconsistencies or inaccuracies in this publication please visit http://www.onr.org.uk/feedback.htm.

© *Office for Nuclear Regulation,* 2019
If you wish to reuse this information visit www.onr.org.uk/copyright.htm for details.
Published 05/19

For published documents, the electronic copy on the ONR website remains the most current publicly available version and copying or printing renders this document uncontrolled.

Y Swyddfa Rheoleiddio Niwclear (ONR)
Adroddiad Safle ar gyfer
Trawsfynydd

Adroddiad ar gyfer y cyfnod 1af Tachwedd 2018 - 31ain Mawrth 2019

Rhagair

Cyhoeddir yr adroddiad hwn yn rhan o ymrwymiad yr ONR i sicrhau bod gwybodaeth am weithgareddau arolygu a rheoliadol yn ymwneud â'r safle uchod ar gael i'r cyhoedd. Dosberthir adroddiadau i aelodau o Grŵp Rhanddeiliaid Safle (SSG) Trawsfynydd a hefyd maent ar gael ar wefan yr ONR (http://www.onr.org.uk/llc/).

Fel arfer bydd arolygwyr safle o'r ONR yn mynd i gyfarfodydd SSG Trawsfynydd ble cyflwynir yr adroddiadau hyn a byddant yn ymateb i unrhyw gwestiynau a godir yno. Dylai unrhyw un sydd eisiau ymholi ynglŷn â materion a drafodir yn yr adroddiad hwn gysylltu â'r ONR.

TABL CYNNWYS

1 ARCHWILIADAU 3
2 MATERION ARFEROL 3
3 MATERION ANARFEROL 4
4 GWEITHGAREDD RHEOLEIDDIO 4
5 NEWYDDION GAN YR ONR 4
6 CYSYLLTIADAU 6

1 ARCHWILIADAU

1.1 Dyddiadau arolygu

Cyflawnodd arolygwyr yr ONR archwiliadau ar y dyddiadau canlynol yn ystod y cyfnod adrodd:

- 19eg – 20fed Tachwedd 2018
- 15fed - 16eg Ionawr 2019
- 12fed Chwefror 2019
- 25ain Mawrth 2019

2 MATERION ARFEROL

2.1 Arolygiadau

Cynhelir arolygiadau ar y safle fel rhan o'r broses o fonitro cydymffurfiaeth â'r canlynol:

- yr amodau a atodwyd gan yr ONR i'r drwydded safle niwclear a ddyfarnwyd dan y Ddeddf Safleoedd Niwclear 1965 (NIA65) (fel y'i haddaswyd);
- y Ddeddf Ynni 2013
- y Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974 (HSWA74); a
- rheoliadau a wnaed o dan HSWA74, er enghraifft y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 2017 (IRR17) a'r Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1999 (MHSWR99).

Mae'r arolygiadau yn golygu monitro gweithredoedd y trwyddedai ar y safle mewn perthynas â digwyddiadau, gweithrediadau, cynnal a chadw, prosiectau, addasiadau, newidiadau i'r ddadl ddiogelwch ac unrhyw faterion eraill a all effeithio ar ddiogelwch. Mae'n ofynnol i'r trwyddedai wneud trefniadau digonol a'u rhoi ar waith o dan yr amodau sydd wedi eu hatodi i'r drwydded er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth gyfreithiol. Mae arolygiadau yn ceisio rhoi barn ar ddigonolrwydd y trefniadau hyn a'u gweithrediad.

Yn ystod y cyfnod hwn, cyflawnodd yr ONR yr archwiliadau canlynol yn Nhrawsfynydd:

- LC 9 Cyfarwyddiadau i bersonau ar y safle
- LC 14 Dogfennaeth diogelwch
- LC 15 Adolygiad cyfnodol
- LC 17 Systemau rheoli
- LC 25 Cofnodion gweithredol
- LC 32 Croniad o wastraff ymbelydrol

Yn gyffredinol, barnodd yr ONR bod y trefniadau a wnaed ac a weithredwyd gan y safle mewn ymateb i ofynion diogelwch yn ddigonol yn y meysydd a arolygwyd. Fodd bynnag, pan ystyriwyd bod angen gwelliannau, gwnaeth y trwyddedai ymrwymiadau boddhaol i fynd i'r afael â'r materion, a bydd yr arolygydd safle yn monitro cynnydd yn ystod ymweliadau yn y dyfodol. Lle bo angen, bydd yr ONR yn cymryd camau gorfodi rheoliadol ffurfiol i sicrhau y gweithredir mesurau adferol priodol o fewn terfynau amser sy'n rhesymol ymarferol.

2.2 Gwaith arall

Yn rhan o'r ymweliad mis Ionawr, cyflawnodd yr arolygydd Safle archwiliad parodrwydd i hysbysu rhyddhau pwynt dal rheoleiddiol yn gysylltiedig gyda chychwyn comisiynu gweithredol gweithrediadau adfer gweddillion elfennau tanwydd y de.

Cynhaliodd arolygydd y Safle gyfarfod a gynlluniwyd gyda chynrychiolwyr diogelwch, i gefnogi ei swyddogaeth o gynrychioli cyflogeion a derbyn gwybodaeth ar faterion yn effeithio ar eu hiechyd, diogelwch a lles yn y gwaith.

3 MATERION ANARFEROL

Mae'n ofynnol i drwyddedai sefydlu trefniadau i ymateb i faterion a digwyddiadau anghyffredin. Mae arolygwyr yr ONR yn barnu digonolrwydd ymateb y trwyddedai, yn cynnwys sut y gweithredwyd i gyflawni unrhyw welliannau angenrheidiol.

Nid oedd unrhyw faterion neu ddigwyddiadau arwyddocaol o'r fath i'w hadrodd yn ystod y cyfnod.

4 GWEITHGAREDD RHEOLEIDDIO

Gall yr ONR gyhoeddi dogfennau ffurfiol i sicrhau y cydymffurfir â gofynion rheoliadol. O dan Amodau Trwyddedu (LC - http://www.onr.org.uk/documents/licence-condition-handbook.pdf) safleoedd niwclear, mae'r ONR yn cyhoeddi dogfennau rheoliadol, sydd naill ai'n caniatáu gweithgaredd neu'n mynnu bod camau penodol yn cael eu cymryd. Gelwir y rhain gyda'i gilydd yn Offerynnau Trwydded (OT). Yn ogystal, gall arolygwyr gyhoeddi Hysbysiadau Gorfodi i sicrhau gwelliannau i ddiogelwch.

Ni chyhoeddwyd unrhyw Offerynnau Trwydded na Hysbysiadau Gorfodi yn ystod y cyfnod:

Tabl 1
Offerynnau Trwyddedu a Hysbysiadau Gorfodi a Gyhoeddwyd gan yr ONR yn ystod y cyfnod hwn

Dyddiad	Math	Rhif Cyfeirio	Disgrifiad
AMH	Dim		

Gellir dod o hyd i adroddiadau gyda manylion y penderfyniadau rheoliadol uchod ar wefan yr ONR yn http://www.onr.org.uk/pars/.

5 NEWYDDION GAN YR ONR

Gweithredu Gorfodol

Ceir crynodeb o weithredu gorfodol isod. Mae mwy o wybodaeth ar gael ar ein gwefan.

- Hysbysiad gwelliant wedi ei gyhoeddi i Sellafield Cyf ar 4 Ionawr 2019 – mae angen gwneud gwelliannau i'w drefniadau prif gontractwr ar gyfer adeiladu, dylunio a rheoli.
- Ar 1 Chwefror, yn dilyn erlyniad yr ONR, cafodd EDF Energy Nuclear Generation Ltd a Doosan Babcock Ltd ddirwy o £200,000 a £150,000 yn y drefn honno yn dilyn digwyddiad ble disgynnodd gweithiwr o uchder yng ngorsaf bŵer Hinkley Point B yn 2017.
- Cyhoeddwyd dau hysbysiad gwelliant i ddau gwmni logisteg trafnidiaeth ar 4 Chwefror yn dilyn toriadau mewn rheoliadau ar gyfer cludo deunydd ymbelydrol yn ddiogel.
- Dau hysbysiad gwelliant wedi cyhoeddi i EDF Energy ar 20 Chwefror yn dilyn digwyddiad ar 19 Tachwedd 2018 yn Heysham 1, a arweiniodd at anaf i dri o Gyflogeion EDF.

**Er tu allan i'r cyfnod adrodd cyfredol, gallwn gadarnhau i Sellafield Ltd gael dirwy o £380,000 ar 2 Ebrill 2019, yn dilyn erlyniad yr ONR am doriadau diogelwch yn ymwneud ag offer a ddefnyddiwyd i brosesu plwtoniwm.*

Diweddariadau rheoleiddiol

Yn dilyn cyflwyno Rheoliadau Awdurdodiad Amgylcheddol newydd yn yr Alban, mae'r MOU rhwng yr ONR a'r Scottish Environmental Protection Agency wedi ei ddiweddaru. Mae'r MOU yn sicrhau cydweithio a chydweithrediad effeithiol wrth reoleiddio diogelwch a diogeledd niwclear, cludo deunydd ymbelydrol, mesurau diogelu niwclear a diogelu amgylcheddol ar safleoedd trwyddedig niwclear a safleoedd eraill ble mae gan yr ONR a SEPA swyddogaethau rheoleiddio.

Yn Chwefror, rhoddwyd trwydded safle niwclear newydd i Tradebe Inutec ar gyfer eu safle Winfrith yn Dorset. Roedd angen trwydded safle newydd yn dilyn caffael adeiladau thir ar safle Winfrith gan Tradebe Inutec gan yr Awdurdod Datgomisiynu Niwclear (NDA).

Ym mis Mawrth fe gyhoeddom adroddiad yn manylu ar "ddigwyddiadau" diogelwch yn y Deyrnas Unedig rhwng 2015-2017. Mae'r adroddiad yn manylu ar y 56 digwyddiad arwyddocaol i ddiogelwch rhwng Ebrill 2015 a Rhagfyr 2017 – yn disgrifio pob digwyddiad, ymateb y deiliad dyletswydd a'r camau a gymerwyd gan yr ONR. Mae'r adroddiad llawn ar gael ar ein gwefan.

Ymgysylltu â Rhanddeiliaid

Yn Chwefror, cynhaliodd ein Prif Arolygydd Niwclear, Mark Foy a Chyfarwyddwr Technegol, Anthony Hart weminar yn canolbwyntio ar yr Adolygiad Testunol cyntaf gan Gydweithwyr 'Ageing management of nuclear power plants and research reactors.' Ceir manylion pellach ar y weminar ar ein gwefan.

Fe gyhoeddom ein hadroddiad Arolwg Rhanddeiliaid 2018, yn Chwefror yn dilyn yr arolwg yn Hydref/Tachwedd y llynedd. Gwahoddwyd rhanddeiliaid o bob rhan o'r sector i gymryd rhan yn yr arolwg gan dderbyn 329 ymateb, a roddodd gipolwg gwerthfawr i farn ein rhanddeiliaid ohonom. Mae'r adroddiad llawn ar gael ar ein gwefan.

Ar 28 Mawrth, cynhaliom ein Fforwm NGO ym Manceinion ac roedd yn bleser croesawu 15 o gynrychiolwyr NGO o 12 sefydliad. Byddwn yn gosod y cofnodion, agenda, cyflwyniadau a phapurau briffio cyn y digwyddiad ar ein gwefan yn yr wythnosau i ddod.

Newyddion corfforaethol

Yn Chwefror fe gyhoeddom benodiad Mark McAllister fel Cadeirydd newydd yr ONR. Bydd Mark yn ymuno â'r ONR o 1 Ebrill, gan olynu Nick Baldwin CBE.

Rydym yn falch iawn bod ein Prif Weithredwr wedi ei chydnabod fel Arweinydd Trawsnewidiol yng Ngwobrau 'Northern Power Women' 2019, digwyddiad sy'n dathlu menywod a dynion yn gweithio tuag at gyflymu amrywiaeth rhyw ym Mhwerdy'r Gogledd. Derbyniodd Adrienne y wobr mewn cydnabyddiaeth i'w gwaith wrth arwain yr ONR trwy newid arwyddocaol, tra'n ysgogi cydbwysedd rhyw ochr yn ochr â hyn.

Mae'r ONR wedi ei gydnabod am ei ymroddiad i gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant trwy ennill achrediad i'r Safonau Cydraddoldeb Cenedlaethol (NES).

Rydym yn cychwyn ar flwyddyn olaf Cynllun Strategol 2016-2020 yr ONR. Felly rydym nawr yn edrych ymlaen at beth a ddaw o'r bum mlynedd nesaf ac yn dechrau datblygu ein strategaeth newydd ar gyfer 2020-25. Nid ydym yn gwneud hyn ar ein pennau ein hunain; rydym eisoes wedi dechrau siarad gyda staff ac yn gofyn i'n rhanddeiliaid am eu barn i lunio ein cynlluniau. Rydym yn awyddus iawn i glywed gan aelodau a mynychwyr SSG ac LLC i'n helpu i ddatblygu ein nodau ac amcanion strategol. Hoffem wybod:

- Beth sy'n gweithio'n dda a beth ddylem ddal i'w wneud ac/neu wneud mwy ohono?
- Beth ydych chi'n meddwl ddylai fod ein prif flaenoriaethau rheoleiddio o 2020 ymlaen?
- Beth ydych chi'n meddwl sydd ar goll o'n Cynllun Strategol presennol sydd angen ei gynnwys yn y nesaf?

Rydym yn bwriadu ymgynghori ar ein strategaeth drafft yn yr hydref, ond yn y cyfamser, os hoffech chi rannu eich sylwadau ac awgrymiadau, anfonwch e-bost atom ar: contact@onr.gov.uk. Gan edrych ymlaen at glywed gennych.

6 CYSYLLTIADAU

Y Swyddfa dros Reoli Niwclear
Redgrave Court
Merton Road
Bootle
Glannau Mersi
L20 7HS
gwefan: www.onr.org.uk
e-bost: ONREnquiries@onr.gsi.gov.uk

Cyhoeddir y ddogfen hon gan y Swyddfa dros Reoli Niwclear (ONR). Am ragor o wybodaeth am yr ONR, neu i roi adroddiad am anghysondebau neu wallau yn y cyhoeddiad hwn, ewch i http://www.onr.org.uk/feedback.htm.

© *Y Swyddfa dros Reoli Niwclear,* 2019
Os ydych yn dymuno ailddefnyddio'r wybodaeth hon, ewch i www.onr.org.uk/copyright.htm am fanylion.
Cyhoeddwyd 05/19

Ar gyfer dogfennau cyhoeddedig, y copi electronig ar wefan yr ONR yw'r fersiwn fwyaf cyfredol sydd ar gael i'r cyhoedd ac mae ei gopïo neu ei argraffu yn gwneud y ddogfen hon yn un na ellir ei rheoli.